# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(230)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i’r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

### 3 Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014

Dechreuodd yr eitem am 14.26

**NDM5620 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth - darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth allforio

Dechreuodd yr eitem am 14.29

**NDM5617 Edwina Hart (Gŵyr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â chymorth allforio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2015-16

Dechreuodd yr eitem am 14.31

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5619 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-2016 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 30 Medi 2014.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 42 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod:

a) y Gyllideb Ddrafft yn methu ag ymgymryd â dull gweithredu Cymru gyfan mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf at y dyfodol;

b) y symiau a fuddsoddir mewn mesurau integreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu torri, ac y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau ariannol ar y GIG yn y dyfodol;

c) dull gweithredu annoeth mewn perthynas â buddsoddi mewn sgiliau wedi arwain at ostyngiad yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael, a gallai hyn arwain at ddirywiad pellach mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 43 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM5619 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-2016 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 30 Medi 2014.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 5 | 21 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14

Dechreuodd yr eitem am 16.13

**NDM5618 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.08

Daeth y cyfarfod i ben am 17.09

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2014**